

Amserlen ar gyfer ystyried: Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)

Tachwedd 2021

Ar 1 Tachwedd 2021, cyflwynwyd y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) yn y Senedd.

Ar 5 Hydref, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i ystyried yr egwyddorion cyffredinol a chyflwyno adroddiad arnynt.

Ar 12 Hydref, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.7, ar amserlen ar gyfer gwaith y Pwyllgor o ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil, gan gytuno y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 4 Mawrth 2022.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 20 Mai 2022, ar yr amod bod y Senedd yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

